

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd  
nos **Lun, 8 Mawrth 2021** am 7:00p.m trwy gyfrwng **Zoom**.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Mike van der Eijk a Heather Williams.

**29. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**30. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**31. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021 yn gywir.*

**32. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi. Parhau i aros am ymateb gan ddyfarnwyr y statws Croesawu Bysiau Moethus.

**33. SEDD A GWELYAU BLODAU WRTH GYFFORDD BORTHYN A HEOL Y PARC**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnal a chadw'r ardal yn dilyn marwolaeth Mr Andrew Phillips fu'n gofalu am yr ardal yn flaenorol ar sail wirfoddol. Awgrymwyd trwsio neu adnewyddu'r fainc sydd yno eisoes, gyda phlac coffa yn dilyn ymgynghori gyda Mrs Phillips. Roedd y Pwyllgor Amwynderau'n fodlon darparu cymorth gyda phlanhigion, gan fod rhai trigolion lleol wedi mynegi diddordeb mewn cynnal a chadw'r ardd. Holodd aelodau a oedd y sedd ger Awelon yn eiddo i Gyngor Tref Rhuthun neu Gyngor Sir Ddinbych gan ei bod mewn cyflwr gwael.

**PENDERFYNWYD:** *trwsio neu adnewyddu'r sedd, a gwneud ymholiadau ynghylch y fainc ger Awelon. Y Cynghorydd Menna Jones i gysylltu gyda Mrs Elizabeth Phillips ynghylch y cynnig io sod plac coffa.*

**34. YMGYRCH TACLUSO'R DREF 2021 A'R TÎM TREF TACLUS**

Gofynnwyd i'r aelodau a oeddynt am gynnal ymgyrch casglu sbwriel eleni, gan gadw at fesurau Covid-19. Cytunodd yr aelodau eu bod yn dymuno gwneud hynny, ac awgrymwyd pennu dyddiad ac yna gallai'r Tîm Tref Taclus adfer ei weithgareddau'n fisol o hynny ymlaen.

**PENDERFYNWYD:** *y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Gareth Jones, Swyddog Cadw Cymru'n Daclus, i ganfod pa ddyddiadau y byddai ar gael a hysbysu Rheolwr yr Hen Lys fel y gellid trefnu dyddiadau'r Tîm Tref Taclus.*

**35. YMGYNGHORIAD YNGHYLCH GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED YN SIR DDINBYCH**

Gofynnwyd i'r aelodau anfon eu sylwadau at y Clerc erbyn diwedd yr wythnos.

**PENDERFYNWYD:** *y byddai Cynghorwyr yn anfon eu sylwadau at y Clerc erbyn diwedd yr wythnos er mwyn llunio ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.*

**36. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Fawrth, 4 Mai 2021 am 7pm.*